**ADRODDIAD I'R CABINET**
14 GORFFENNAF 2015

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS
AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** CYLLIDEB REFENIW 2015/16 – ADNABOD RISGIAU CYNNAR

**Swyddog Cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

---

## 1. Y penderfyniad a geisir

**1.1 Nodi'r risgiau cyllidebol sydd wedi'u hadnabod yn gynnar yn 2015/16 a gofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu rheolaeth.**

## 2. Casgliadau Cynnar am Gyllidebau'r Adrannau

2.1 Cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw 2015/16.

2.2 Yn **Atodiad 1** mae amlinelliad o'r sefyllfa fesul adran, gyda sylwadau cryno ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol (cyllidebau lle rhagwelir gorwariant yn 2015/16 ar sail profiad y chwarter gyntaf).

2.3 Gan ei bod mor fuan yn y flwyddyn, nid yw'r holl dueddiadau gwariant yn eglur, ac mae'r adroddiad ar gyfer y chwarter cyntaf yn dueddol o ganolbwyntio ar faterion sydd wedi dod i'r amlwg ers paratoi'r gyllideb ac unrhyw broblemau o sylwedd sydd wedi amlygu eu hunain yn y cyfamser.

2.4 O ganlyniad, mae'r adroddiad yma, sydd wedi'i baratoi ar sail eithriadau, yn adnabod risgiau ariannol, yn hytrach na phroffwydo cyfanswm o orwariant gan y Cyngor yn 2015/16. Diau y bydd penawdau cyllideb eraill yn tanwario eleni a gwrthbwyso rhai o'r problemau sydd wedi'u nodi yma.

2.5 Mae'n rhy gynnar i ddod i ganlyniad pendant am y perfformiad ariannol tebygol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Er hynny, mae tueddiad tuag at orwariant ar rai penawdau gwariant eisoes, sy'n awgrymu risg o orwariant go sylweddol mewn sawl adran, gan gynnwys Oedolion, Addysg, Economi a Chymuned, Priffyrdd, ac Ymgynghoriaeth, ond mae'r asesiad sydd yma o sefyllfa cyllideb 2015/16 yn un cynnar ar sail eithriadau. Cadarnhaf fod yr adrannau perthnasol yn cymryd camau i geisio rheoli cyllideb eleni.

## 3. Camau nesaf ac amserlen

3.1 Disgwylir i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid perthnasol barhau i gadw llygad ar y materion amlygwyd yn Atodiad 1.

3.2 Adroddir ymhellach gyda mwy o fanylder a mwy o sail i'n rhagamcanion wedi dysgu o brofiad yr ail chwarter, gan gofio fod cynnwys yr adroddiad yma wedi'i baratoi **cyn** diwedd y chwarter cyntaf.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Fel y noda'r adroddiad, mae'n fuan iawn yn y flwyddyn i fod yn adnabod unrhyw dueddiadau arwyddocaol ond mae'n allweddol bod penaethiaid ac Aelodau Cabinet yn cadw llygad barcud ar unrhyw awgrymiadau cynnar o orwariant er mwyn dod a'r mater dan reolaeth.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Amlinelliad o'r sefyllfa fesul adran